

Canllaw i Ganlyniadau Llwybrau Mynediad

Mehefin 2022

Mae'r ddogfen hon yn cynnig trosolwg o ganlyniadau ar gyfer **Llwybrau Mynediad**. Mae'n rhoi manylion ynghylch beth i'w ddisgwyl ar ddiwrnodau canlyniadau, y ddogfennaeth y byddwch yn ei derbyn, gwybodaeth am ffiniau graddau, a lle y gellir dod o hyd i gyngor ac arweiniad ychwanegol.

1. Diwrnod y Canlyniadau

i) Casglu Canlyniadau Arholiadau

Rhaid i ymgeiswyr gasglu eu canlyniadau o safle eu hysgol neu goleg, fel arfer ar ddiwrnod cyhoeddi canlyniadau swyddogol y cymwysterau y maent wedi eu sefyll.

Bydd canlyniadau Llwybrau Mynediad yn cael eu cyhoeddi ar **Dydd Iau 7 Gorffennaf 2022**

Nid yw CBAC yn gallu darparu na thrafod canlyniadau dros y ffôn na drwy gyfathrebu ar e-bost ag ymgeiswyr neu rieni, hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg wedi cau. Dylai ymgeiswyr, felly, wirio â'u hysgol neu goleg pryd a ble y bydd canlyniadau ar gael i'w casglu a sut a gyda phwy y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon.

(ii) Beth i'w ddisgwyl

Ar ddiwrnod y canlyniadau, bydd ymgeiswyr yn derbyn darn o bapur gyda'u canlyniadau arno. Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ar hyn o bryd; gall fod newidiadau yn hwyrach ymlaen, er enghraifft, yn dilyn Adolygiad o Farcio neu Safoni. Cysylltwch â pathways@wjec.co.uk am fanylion.

iii) Sut mae'r slip yn dangos y canlyniadau?

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cydran a safodd ymgeisydd yn ystod y gyfres arholiadau honno. Mae canlyniadau Llwybrau Mynediad yn cael eu hadrodd fel Llwyddo (P) ar naill ai Lefel 1, Mynediad 3, Mynediad 2 a Mynediad 1.

Mae canlyniadau unedau sy'n ffurfio'r cyfnewid yn cael eu hadrodd fel Llwyddo (P) ond mae hefyd yn nodi nifer y credydau a enillwyd.

Ni fydd ymgeiswyr sy'n methu cyrraedd y safon ofynnol i Lwyddo yn cael gradd (Q).

2. Deall eich canlyniadau

Dyfernir gradd y cymhwyster ar sail cyfuno'r credydau ar gyfer unedau. Mae gan bob uned werth credyd sydd rhwng 1 a 5 credyd. I ennill y cymhwyster perthnasol mae angen i ymgeiswyr gwblhau unedau sy'n rhoi digon o gredydau iddynt. I ennill y Dyfarniad, mae angen 8 credyd neu fwy. I ennill y Dystysgrif, mae angen 13 credyd neu fwy. I ennill y Diploma, mae angen 37 credyd neu fwy.

3. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod unrhyw bryderon â'u hysgol neu goleg, swyddog arholiadau neu athro fel arfer, a phenderfynu ar yr opsiynau gorau sydd ar gael.

Os ystyrir efallai bod gwall wedi digwydd, gellir gwneud cais am

- [Adolygiad o'r safoni ar ôl y canlyniadau](#) – noder nad yw hwn ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol.


Am ragor o fanylion, cysylltwch â pathways@wjec.co.uk.

4. Pryd bydd tystysgrifau ar gael?

Bydd tystysgrifau yn cael eu hanfon i ganolfannau erbyn **7th Tachwedd**

Dylai ymgeiswyr wirio bod eu manylion personol, enw a dyddiad geni, yn gywir ar y slip canlyniadau a rhoi gwybod i'r Swyddog Arholiadau os oes unrhyw wallau. Os na fydd gwallau'n cael eu cywiro yn y cyfnod hwn, bydd cost am dystysgrifau newydd ar ôl eu cyhoeddi. Dylai ymgeiswyr wirio'r trefniadau ar gyfer derbyn eu tystysgrifau gyda'u hysgol neu goleg.

Atodiad 1 – Enghraifft o Slip Graddau

|  | | SUMMARY OF RESULTS | |
|---|-------------------------------|--------------------------|--------------|
| | | ENTRY PATHWAYS JUNE 2017 | |
| CENTRE NO. | CENTRE NAME | | |
| 68999 | Test Centre | | |
| CANDIDATE NO. | CANDIDATE NAME | DATE OF BIRTH | |
| 40008 | Forename Surname | 21/04/98 | |
| CANDIDATE DCI | CANDIDATE ULN | | |
| | | | |
| | | Credits | Grade |
| PERSONAL PROGRESS | ENTRY 1 CERT. CASH IN 6000/C1 | | P |
| INDEPENDENT LIVING | ENTRY 2 AWARD CASH IN 6002/A2 | | P |
| LIVING SKILLS: YOUR OWN HOME | ENTRY 1 | 6062/E1 002 | P |
| LIVING SKILLS: BRING HEALTHY | ENTRY 1 | 6063/E1 002 | P |
| SKILLS FOR WORK: GET THINGS DONE | ENTRY 1 | 6064/E1 004 | P |
| SKILLS FOR WORK FOLLOW INSTRUCTION | ENTRY 1 | 6065/E1 002 | P |